Amnest Rhyngwladol

# AMSER I FFOI

Adnodd addysg hawliau dynol ar ffoaduriaid a lloches.
I'w ddefnyddio ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 16 oed sy'n archwilio Dinasyddiaeth / ABCh neu Ddaearyddiaeth.

**ADNODD ADDYSG HAWLIAU DYNOL**
**FFOADURIAID**

www.amnesty.org.uk/education

# YNGLŶN Â'R ADNODD HWN

Mae'r wers hon yn addas ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 16 oed a bydd yn para am oddeutu 1 awr. Mae'r wers yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwersi Dinasyddiaeth neu Ddaearyddiaeth yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, Addysg Bersonol a Chymdeithasol neu Ddaearyddiaeth yng Nghymru ac Astudiaethau Modern neu Ddaearyddiaeth/Pobl a Lleoedd yn Yr Alban.

## Nod

Helpu myfyrwyr ddeall pam mae pobl yn dod yn geiswyr lloches a'r anawsterau maent yn eu hwynebu wrth gyrraedd gwlad arall.

**Yr adnoddau y mae eu hangen**

- Taflen wybodaeth i'r athro – hanes Suada
- Enghraifft o nodyn bygythiol – lluniwch un eich hunan neu llawrlwythwch enghraifft o www.amnesty.org.uk/our-rights i lunio un eich hunan, tynnwch ddarlun o benglog ac arch. Torrwch lythrennau allan o gylchgronau a'u glynu ar y dudalen i gyfansoddi ymadroddion fel 'mae'ch dyddiau wedi'u rhifo, rhacsyn. Llofnodwyd: Cyfeillion y Famwlad.'
- Pinnau blaen ffelt a dalennau mawr o bapur i bob grŵp

## GWEITHGAREDD 1

# PAM MAE POBL YN DOD YN FFOADURIAID
**(15 munud)**

Gofynnwch i'r myfyrwyr i ysgrifennu eu diffiniad hwy eu hunain o:
- Erledigaeth
- Ffoadur
- Ceisydd lloches

Rhannwch, trafodwch a chymharwch eu diffiniadau â'r canlynol:

### Ffoaduriaid

Mae Confensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig ar Statws ffoaduriaid – Confensiwn Genefa – yn diffinio ffoaduriaid yn bobl sy'n ceisio lloches (diogelwch) mewn gwlad arall ac mae ganddynt sail gadarn i ofni y cânt eu herlid oherwydd eu hil, crefydd, cenedligrwydd, barn wleidyddol neu am eu bod yn aelod o grŵp cymdeithasol penodol, sy'n eu hatal rhag dychwelyd i'w mamwlad.

### Ceisydd lloches

Rhywun sy'n ceisio lle diogel mewn gwlad arall, sydd wedi gwneud cais am ddiogelwch fel ffoadur ac sy'n aros i'r awdurdodau benderfynu ei statws. Caiff ceiswyr lloches eu derbyn yn ffoaduriaid os yw'r awdurdodau yn y wlad sy'n eu derbyn yn penderfynu bod eu cais yn ddilys a'i fod yn cyd-fynd â'r diffiniad rhyngwladol o ffoadur.

### Erledigaeth

Darostwng unigolyn i elyniaeth a cham-drin maith oherwydd pwy ydynt neu beth maent yn ei gredu

Gofynnwch i'r myfyrwyr faint o ffoaduriaid rydynt yn meddwl sydd yn y byd.
(Oddeutu 10 miliwn – mwy na dwywaith cymaint poblogaeth yr Alban.)
Pa ganran o'r rhain sydd yn y DU? (2.8)
Ffynhonnell: Comisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR 2007)

Mae'r rhan fwyaf o ffoaduriaid wedi ffoi o un wlad dlawd i wlad dlawd arall ac mae mwy na hanner yr holl ffoaduriaid yn fenywod neu blant. Fodd bynnag, mae rhai ffoaduriaid yn dod i'r DU. Dyma enghraifft o brofiad un ferch (darllenwch hanes Suada, trosodd)

# HANES SUADA

Rhwng 1991 a 2001 oherwydd rhyfel a throseddau hawliau dynol yn y gyn-wlad Iwgoslafia, ffodd mwy na dwy filiwn o bobl o Fosnia, Croatia a Chosofo. Roedd Suada, sef merch o Fosnia yn 13 oed pan ysgrifennodd hi hwn.

**Roedd yn fore braf o Fai. Roeddwn yn fy nhŷ yn fy mhentref ym Mosnia. Roeddwn ar fin cael brecwast. Clywais bobl yn siarad yn aml am y rhyfel a oedd yn digwydd o'n hamgylch ond ni allwn ddychmygu hyn yn digwydd i mi. Ond fe ddigwyddodd i mi y bore hwnnw gan droi fy mywyd wyneb i waered.**

**Yn gyntaf, clywais sŵn saethu. Yna clywais fy nghymydog yn crio. 'Maent yn mynd â'r dynion i ffwrdd!' meddai. Daeth fy nhad allan i weld beth oedd yn digwydd. Deuthum i allan hefyd. Gwelais lawer o filwyr yn dod tuag atom, yn sgrechian ac yn defnyddio geiriau anweddus. Milwyr, tanciau, arogl saethu ym mhobman.**

**Roedd ofn arnaf, mwy o ofn nag erioed yn fy mywyd. Gwnaeth y milwyr i ni, y plant a'n mamau ymgynnull o dan goeden. Roeddent yn saethu dros ein pennau ac yn bygwth eu bod yn mynd i'n lladd ni. Gwelais i nhw yn mynd â'n Nhad i ffwrdd ynghyd â dynion eraill. Roeddwn yn crio. Yna cymerodd filwr bawlyd fy nghefnder Nermin a'i ladd o flaen fy llygaid. Roeddwn yn rhy ofnus i grio hyd yn oed. Llosgwyd llawer o dai yn y pentref – ein tŷ ni hefyd. Aethpwyd â ni i wersyll Trnopolje. Arhosom yno am bythefnos. Gwnaethom feddwl na fyddem byth yn dod allan ohono.**

**Bythefnos yn ddiweddarach gadawsant nhw i ni fynd i'n pentref. Roedd y rhan fwyaf o'r tai wedi llosgi felly gwnaethom aros yn y rhai hynny nad oeddent wedi eu difrodi gymaint. Arhosodd dau neu dri theulu yn ein tŷ ni. Roedd fy Mam a mi yn byw gyda'm modryb a'i merch.**

Yna, gwnaeth Suada, ei mam a'i modryb daith beryglus ar draws meysydd brwydrau a chroesi'r ffin i Groatia. Roedd bywyd yn y gwersyll ffoaduriaid, lle roeddent yn aros, yn galed iawn. Ond i'r plant roedd fel nefoedd ar ôl yr holl arswyd roeddent wedi'i weld. Ym mhen hir a hwyr ailymunwyd Suada â'i thad. Yna dywedwyd wrth ei theulu eu bod yn mynd i'r DU.

**Rwyf yn hapus nawr i fod yn Llundain gyda'm rhieni a'm cyfnither a'i rhieni. Ond yn aml, rwyf yn meddwl am fy nghyfeillion a'r teganau a adewais ym Mosnia. Ambell waith rwyf yn cael hunllef ac yn meddwl bod y milwyr yn dod ar fy ôl eto. Gobeithiaf na allent beri ofn ar blant a'u lladd hwy a'u rhieni byth eto.**

(Dyfynnwyd o *Refugees – We left because we had to*, Jill Rutter, y Cyngor Ffoaduriaid,1996)

# GWEITHGAREDD 2

## CHWARAE RÔL (35 munud)

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bump neu chwech. Darllenwch y stori isod iddynt gan ddychmygu eich bod chi yn aelod o'r teulu sy'n esbonio beth a ddigwyddodd.

### AMSER I FFOI

**Rhoi'r cefndir**

Mae dad yn gweithio fel newyddiadurwr ar y papur lleol. Mae Mam yn fecanydd. Maent newydd gael baban. Mae ganddynt fachgen a merch yn yr ysgol. Mae Mam-gu mewn cadair olwyn ac yn gaeth i'r tŷ ers iddi gael strôc. Roedd Ewythr Ali, sy'n grefyddol iawn, yn garcharor gwleidyddol am nifer o flynyddoedd. Mae'n cael anhawster i gerdded ac yn hercian ers iddo fod yn y carchar. Mae hen gar gan Mam a Dad. Mae Dad wedi bod yn flaenllaw yn undeb lafur y newyddiadurwyr lleol. Mae'r sefyllfa yn y wlad wedi bod yn newid yn ddramatig iawn yn ddiweddar.

**Dau fis yn ôl**

Bu gwrthryfel milwrol. Bu llawer o saethu ar y strydoedd. Roedd tanciau a cheir arfog ym mhobman. Cafodd llawer o bobl eu lladd ac arestiwyd rhai eraill. Gosodwyd hwyrgloch a rhaid i bawb bellach aros yn eu tai ar ôl iddi dywyllu. Mae'r llywodraethwyr milwrol yn rheoli'r gorsafoedd teledu a radio. Mae'n anodd iawn gwybod beth yn union sy'n digwydd.

**Mis yn ôl**

Dywedwyd wrth Dad fod y llywodraethwyr milwrol newydd wedi arestio nifer o bobl. Mae eraill gan gynnwys pobl grefyddol flaenllaw, gwleidyddion, awduron ac undebwyr llafur wedi 'mynd ar goll'. Ni ŵyr neb lle y maent.

**Pythefnos yn ôl**

Ymddangosodd erthygl yn y papur lleol (a oedd yn cefnogi'r gwrthryfel filwrol). O dan lun o benglog ac roedd rhestr hir o enwau pobl o'r dref y dywedwyd eu bod yn elynion y wladwriaeth. Roedd enwau Dad ac Ewythr Ali yn eu plith. Fe'i llofnodwyd: 'Cyfeillion y Famwlad'.

**Yr wythnos ddiwethaf**

Daeth milwyr i'r ysgol i chwilio am ŵr y gynorthwywraig ginio. Nid oedd ef yno. Felly aethant â'r gynorthwywraig ginio a'i phlant yn lle hynny.

**Pedwar diwrnod yn ôl**

Cyhoeddwyd bod amryw o undebau llafur gan gynnwys undeb y newyddiadurwyr wedi'u gwahardd.

**Tridiau yn ôl**

Gwthiwyd nodyn (dosbarthwch gopi ohoni) drwy ddrws cartref y teulu. Gwnaed o nodyn o lythrennau a dorrwyd allan o bapur newydd. Dywedodd fod Dad yn 'ysbïwr ac yn elyn o'r wladwriaeth' a bod 'ei ddyddiau wedi'u rhifo'. Roedd llun o benglog ac arch, rhaff crogwr a dryll. Fe'i arwyddwyd: 'Cyfeillion y Famwlad'.

**Deuddydd yn ôl**

Ffoniodd rhywun Ewythr Ali gan ddweud wrtho y byddai'n well pe bai'n gadael gan fod rhai pobl yn cynllunio i losgi'r tŷ.

**Ddoe**
Dywedodd rhai plant yn yr ysgol fod sgwadiau cipio o filwyr wedi bod yn chwilio'r strydoedd mewn cymdogaeth gyfagos gan arestio pobl, gan gynnwys rhai o aelodau undeb llafur Dad.

**Heddiw**
Bu sŵn saethu gynnau yn y prif sgwâr ac mae tryciau yn llawn o filwyr wedi bod yn cyrraedd o flaen Neuadd y Dref. Mae rhwystrau ffordd yn atal pob cerbyd. Chwiliwyd bob trên.

Mae'r teulu'n ymgynnull am drafodaeth frys. Beth maent hwy yn mynd i'w wneud? Dywed Dad y dylai'r teulu ffoi, a cheisio am loches wleidyddol dramor fel ffoaduriaid. Mae'n llai nag awr i'r ffin mewn car ond byddai'r daith yn beryglus iawn. Byddai cerdded yn golygu taith o wythnos drwy'r diffeithwch ac yna drwy goedwig uchel ar draws gwlad beryglus i'r ffin.

Nawr maent yn clywed bod milwyr yn dechrau chwilio yn eu stryd.
Mae ganddynt 10 munud i benderfynu beth i'w wneud, i drefnu a gadael y tŷ.

## Penderfyniadau

1. Pwy sydd i fynd?
Rhaid i bob grŵp benderfynu pwy ddylai fynd a phwy ddylai aros neu eu hanfon at berthnasau neu gael eu cuddio rhywle. A ddylent gymryd Mam, Dad, y baban, Ewythr Ali, mam-gu, y plant? Gofynnwch i bob grŵp rhoi adborth am eu penderfyniad a thrafod.
2. Beth ddylent fynd gyda hwy?
Rhaid i bob grŵp lunio rhestr o'r 10 peth pwysicaf i fynd gyda hwy er mwyn mynd dros y ffin i hawlio lloches fel ffoaduriaid.

Pan fydd pawb yn gytûn, maent i ysgrifennu neu dynnu llun o'r eitemau dethol ar ddalen o bapur.

## Trafodaeth

Grwpiau i adrodd yn ôl ar bwy a wnaethant benderfynu ddylai fynd a beth oedd ar eu rhestr. Ysgrifennir yr holl awgrymiadau ar y bwrdd.

Dywedwch wrth y dosbarth ar ôl taith hir, anodd a brawychus, gwnaethant gyrraedd y ffin yn flinedig ac yn newynog. Mae'r athro nawr yn chwarae rôl Swyddog Mewnfudo yn y Swyddfa Rheoli Pasbortau. Gofynnwch i'r myfyrwyr pwy ydynt a beth maent yn gwneud yma. Pan ddywedant eu bod mewn perygl ac mae angen lle diogel arnynt yn eich gwlad, gofynnwch iddynt ddweud beth a ddigwyddodd. Dywedwch wrthynt bod eu stori'n swnio'n annhebygol a'ch bod chi'n amau eu bod nhw'n ffugio. A oes ganddynt unrhyw brawf o'r hanes hwn yn eu bagiau? Gallai tystiolaeth gynnwys cerdyn undeb llafur Dad, y bygythiad marwolaeth dienw a'r erthygl yn y papur newydd. Gofynnwch iddynt wacáu eu bagiau. Os oes unrhyw un ohonynt wedi nodi arf ymhlith y 10 o bethau ar eu rhestr, gofynnwch iddynt beth oeddent yn bwriadu gwneud ag ef a gofynnwch iddynt ai terfysgwyr ydynt! Cymerwch ymaith yr arfau. Os ydynt wedi dod â ffotograffau o'r teulu cymerwch y rheiny hefyd, gan ddweud y gallent fod yn ddefnyddiol ar gyfer eich ymchwiliadau. Os na allant ddarparu unrhyw dystiolaeth am eu hanes, anfonwch hwy yn ôl fel 'ceiswyr lloches wedi methu'.

# GWEITHGAREDD 3

## PAWB (5–10 munud)

Gorffennwch y chwarae rôl a thrafodwch â'r myfyrwyr:
Beth oedd eu profiad fel ceisiwr lloches? A yw wedi newid eu canfyddiad o geiswyr lloches yn y wlad hon?

D.S. Yn y wlad hon, rhaid i geiswyr lloches wneud eu cais cyn gynted ag y bônt yn cyrraedd y ffin. Os na wnânt hynny, nid oes hawl ganddynt i unrhyw gefnogaeth. Os y gwnânt hawl am loches ar unwaith, ni chaiff eu hachos ei asesu pan fyddant yn cyrraedd, fel yr oedd yn yr ymarfer, ond fe'u hasesir dros gyfnod hwy o amser gan ddefnyddio meini prawf tebyg. Yn ystod yr amser hwn, gall ceiswyr lloches gael eu cadw yn y ddalfa er mwyn eu hatal rhag cuddio. Os bydd eu cais am loches yn methu, fe'u hanfonir yn ôl i'w gwlad, neu os na allant fynd yn ôl, maent yn aros yn y DU ond ni chânt weithio a thynnir yn ôl y rhan fwyaf o gefnogaeth y llywodraeth. Gweler www.amnesty.org.uk/asylum am fwy o wybodaeth.